WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

Archwilydd Cyffredinol Cymru
Auditor General for Wales

# Adolygiad dilynol o drefniadau corfforaethol ar gyfer diogelu plant – **Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili**

Blwyddyn archwilio: 2018-19

Dyddiad cyhoeddi: Mehefin 2019

Cyfeirnod y ddogfen: 1326A2019-20

Paratowyd y ddogfen hon ar gyfer defnydd mewnol Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili fel rhan o waith a gyflawnir yn unol ag Adran 17 o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 ac adran 18 o Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009.

Ni chymerir unrhyw gyfrifoldeb gan yr Archwilydd Cyffredinol na staff Swyddfa Archwilio Cymru mewn perthynas ag unrhyw aelod, cyfarwyddwr, swyddog neu gyflogai arall yn eu cymhwyster unigol, nac mewn perthynas ag unrhyw drydydd parti.

Os ceir cais am wybodaeth y gall y ddogfen hon fod yn berthnasol iddi, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Mae Cod adran 45 yn nodi'r arfer o ran trin ceisiadau a ddisgwylir gan awdurdodau cyhoeddus, gan gynnwys ymgynghori â thrydydd partïon perthnasol. Mewn perthynas â'r ddogfen hon, Archwilydd Cyffredinol Cymru, Swyddfa Archwilio Cymru a, lle y bo'n briodol, yr archwilydd penodedig yw'r trydydd partïon perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â datgelu neu ailddefnyddio'r ddogfen hon i Swyddfa Archwilio Cymru yn swyddog.gwybodaeth@archwilio.cymru.

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi. We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English. Corresponding in Welsh will not lead to delay.

Mae’r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg.

Roedd y tîm a gyflawnodd y gwaith yn cynnwys Gareth Jones, yn cael ei reoli gan Non Jenkins dan gyfarwyddyd Huw Rees.

# Cynnwys

Er bod y Cyngor wedi gwneud peth cynnydd o ran mynd i'r afael â'n hargymhellion blaenorol, mae angen i'r Cyngor wneud gwaith pellach i gryfhau ei drefniadau trosolwg a sicrwydd ar gyfer diogelu corfforaethol.


Adroddiad cryno 4

Asesiad o'r cynnydd yn erbyn ein hargymhellion o'n hadroddiad yn 2015 a'r cynigion ar gyfer gwella o'n hadroddiad yn 2014 6

Atodiadau

Atodiad 1 – y bwrdd diogelu corfforaethol 17

# Crynodeb

## Yr hyn y gwnaethom ei adolygu a pham

1 Fe gynhaliom ni'r adolygiad hwn i geisio sicrwydd bod gan y Cyngor drefniadau corfforaethol effeithiol ar gyfer diogelu plant. Fe wnaethom ystyried canfyddiadau'r adroddiad a gyhoeddwyd gennym yn 2014 ar drefniadau'r Cyngor i gefnogi diogelu plant[1]. Fe wnaethom hefyd ystyried cynnydd y Cyngor o ran gweithredu'r argymhellion yn adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol, 'Adolygiad o Drefniadau Diogelu Corfforaethol yng Nghynghorau Cymru' (Gorffennaf 2015)[2].

2 Fe gynhaliom ni'r adolygiad yn ystod mis Mai 2019. Darparodd y Cyngor hunanasesiad o'i gynnydd o ran mynd i'r afael â'r argymhellion a'r cynigion ar gyfer gwella a wnaed yn 2014 a 2015. Darparodd y Cyngor ddogfennau i ategu ei hunanasesiad. Wedyn fe gyfwelom ni â swyddogion allweddol a'r aelod arweiniol dros Ddiogelu Corfforaethol.

3 Mae ein hadolygiad wedi bod yn gyfyngedig i adolygu hunanasesiad y Cyngor o'i gynnydd yn erbyn ein hargymhellion blaenorol a'n cynigion blaenorol ar gyfer gwella. Nid ydym wedi profi effeithiolrwydd ymarferol trefniadau diogelu'r Cyngor fel rhan o'r adolygiad hwn.

## Yr hyn a ganfuom

4 Roedd ein hadolygiad yn ceisio ateb y cwestiwn: **A yw'r Cyngor wedi gweithredu ar yr argymhellion a'r cynigion ar gyfer gwella yn adroddiadau cenedlaethol a lleol yr Archwilydd Cyffredinol a gyhoeddwyd yn 2014 a 2015?**

5 Ar y cyfan, canfuom fel a ganlyn: **Er bod y Cyngor wedi gwneud peth cynnydd o ran mynd i'r afael â'n hargymhellion blaenorol, mae angen i'r Cyngor wneud gwaith pellach i gryfhau ei drefniadau trosolwg a sicrwydd ar gyfer diogelu corfforaethol.**

6 Yn seiliedig ar y gwaith yr ydym wedi'i wneud, mae angen i'r cyngor wneud gwaith pellach i gryfhau ei drefniadau trosolwg a sicrwydd ar gyfer diogelu corfforaethol. Yn arbennig, mae gan y Bwrdd Diogelu Corfforaethol gylch gorchwyl helaeth iawn ond dim ond yn flynyddol y mae'n cwrdd. Nid yw'r Cyngor yn cynnwys diogelu yn ei gofrestr risgiau corfforaethol na'i gofrestrau risgiau lefel gwasanaeth ar hyn o bryd. Dylai'r Cyngor gryfhau'r drosolwg a sicrwydd a ddarperir gan ei Fwrdd Diogelu Corfforaethol i sicrhau bod gweithdrefnau'r Cyngor ar gyfer diogelu plant ac oedolion yn gadarn. Mae angen egluro rôl y Cabinet, y Pwyllgor Archwilio, y Gwasanaeth Archwilio Mewnol a'r Pwyllgorau Craffu mewn perthynas â Diogelu Corfforaethol.

7 Mae Ymrwymiadau Cabinet y Cyngor yn cynnwys diogelu fel blaenoriaeth allweddol,

[1] Archwilydd Cyffredinol Cymru, **Trefniadau Awdurdodau Lleol i Gefnogi Diogelu Plant – Cyngor Sir Ddinbych, Medi 2014**

[2] Mae copi o'r adroddiad ar gael ar wefan Swyddfa Archwilio Cymru www.archwilio.cymru

ac ethos y Cyngor yw bod 'Diogelu yn Fusnes i Bawb'. Fodd bynnag, nid yw wedi mynd i'r afael yn llawn â nifer o'n hargymhellion cenedlaethol blaenorol eto, fel a ddangosir isod. Mae Arddangosyn 2 a ganlyn yn nodi ein hasesiad o gynnydd y Cyngor o ran mynd i'r afael â phob argymhelliad cenedlaethol a chynnig lleol ar gyfer gwella.

Arddangosyn 1: Argymhellion cenedlaethol nad aethpwyd i'r afael â hwy yn llawn eto

Mae'r tabl isod yn nodi'r argymhellion cenedlaethol nad yw'r Cyngor wedi mynd i'r afael â hwy yn llawn eto

| Argymhellion cenedlaethol nad aethpwyd i'r afael â hwy yn llawn eto |
| --- |
| **A3** Cryfhau recriwtio staff a gwirfoddolwyr yn ddiogel trwy:<br>• sicrhau bod gwiriadau'r Gwasanaeth Datgelu ac Atal (GDA) a chydymffurfio a pholisïau recriwtio diogel yn cynnwys pob gwasanaeth sy'n dod i gysylltiad â phlant;<br>• creu system gydymffurfio gorfforaethol integredig i gofnodi a monitro lefelau cydymffurfio ar wiriadau GDA; a<br>• mynnu cael arferion recriwtio diogel ymysg partneriaid yn y trydydd sector ac i wirfoddolwyr sydd yn darparu gwasanaethau a gomisiynir a/neu a ddefnyddir gan y cyngor gyda sylfaen o gontract neu gytundeb lefel gwasanaeth. |
| **A4** Sicrhau bod y staff, aelodau a phartneriaid perthnasol yn deall eu cyfrifoldebau diogelu trwy:<br>• sicrhau bod hyfforddiant diogelu yn orfodol a bod yr ymdriniaeth yn ymestyn at holl feysydd gwasanaeth perthnasol y cyngor, a'i fod yn cael ei gynnwys fel elfen safonol ar raglenni cynefino;<br>• creu system ledled y gorfforaeth i adnabod, olrhain a monitro cydymffurfiaeth â'r angen i fod yn bresennol mewn hyfforddiant diogelu yn holl adrannau'r cyngor, aelodau etholedig, ysgolion, llywodraethwyr a gwirfoddolwyr; a<br>• mynnu bod staff perthnasol mewn sefydliadau sy'n bartneriaid a gomisiynir i weithio dros y cyngor wrth gyflenwi gwasanaethau i blant a phobl ifanc yn gorfod ymgymryd â hyfforddiant diogelu. |
| **A6** Gwella atebolrwydd am ddiogelu corfforaethol trwy adrodd yn rheolaidd ar faterion diogelu a sicrwydd wrth bwyllgor(au) craffu yn erbyn set gytbwys o wybodaeth perfformiad ledled y cyngor ynglŷn â'r canlynol:<br>• meincnodi a chymharu ag eraill;<br>• casgliadau archwiliadau/adolygiadau arolygu mewnol ac allanol;<br>• data perfformiad seiliedig ar wasanaethau;<br>• data personél allweddol megis hyfforddiant diogelu, a gwiriadau recriwtio GDA; a<br>• pherfformiad contractwyr a gwasanaethau a gomisiynwyd o ran cydymffurfio â chyfrifoldebau diogelu'r cyngor. |
| **A7** Sefydlu rhaglen dreigl o adolygiadau archwilio mewnol i gynnal profion ar systemau a chynnal adolygiadau cydymffurfio ar arferion diogelu'r cyngor. |
| **A8** Sicrhau yr ystyrir y risgiau sy'n gysylltiedig â diogelu ar lefel gorfforaethol a gwasanaeth wrth ddatblygu a chytuno ar gynlluniau rheoli risg ar draws y cyngor. |

## Arddangosyn 2: asesiad o gynnydd y Cyngor o ran mynd i'r afael â'r argymhellion cenedlaethol

Mae'r tabl isod yn nodi ein hasesiad o gynnydd y Cyngor o ran mynd i'r afael â'r argymhellion cenedlaethol a'r cynigion lleol ar gyfer gwella.

| Argymhelliad o adroddiad 2015 | Asesiad Swyddfa Archwilio Cymru o gynnydd y Cyngor |
|---|---|
| **A1**<br>Gwella arweiniad corfforaethol a chydymffurfio â pholisi Llywodraeth Cymru ar ddiogelu trwy wneud yr isod:<br>1. penodi uwch-swyddog arweiniol fydd yn atebol am ddiogelu ac amddiffyn plant a phobl ifanc gyda chyfrifoldebau corfforaethol am gynllunio gwelliannau;<br>2. penodi aelod arweiniol dros ddiogelu; a<br>3. dosbarthu a chyfoesi yn rheolaidd wybodaeth am y penodiadau hyn i'r holl staff a rhanddeiliaid. | **Crynodeb – Wedi'i roi ar waith yn llawn**<br>Mae'r Cyngor wedi gwella arweinyddiaeth gorfforaethol a chydymffurfiaeth â pholisi Llywodraeth Cymru ar ddiogelu trwy wneud yr isod:<br><br>1. penodi uwch-swyddog arweiniol fydd yn atebol am ddiogelu ac amddiffyn plant a phobl ifanc gyda chyfrifoldebau corfforaethol am gynllunio gwelliannau;<br>2. penodi aelod arweiniol dros ddiogelu (Yr Aelod Cabinet dros Wasanaethau Cymdeithasol a Thai); a<br>3. dosbarthu a chyfoesi yn rheolaidd wybodaeth am y penodiadau hyn i'r holl staff a rhanddeiliaid.<br><br>Dylai'r Cyngor ystyried yr opsiynau canlynol i gryfhau ei drefniadau ymhellach:<br>• sicrhau bod y Polisi Diogelu Corfforaethol yn fwy hygyrch o'r brif dudalen ar fewnrwyd y Cyngor ac nid dim ond trwy dudalennau'r Gwasanaethau Plant;<br>• sicrhau bod manylion cyswllt y Swyddogion Diogelu Dynodedig yn cael eu harddangos yn fwy amlwg ar dudalennau meysydd gwasanaeth ar y fewnrwyd;<br>• sicrhau amlygrwydd swyddogion allweddol a'r aelod arweiniol ar dudalennau'r fewnrwyd ac mewn deunyddiau hyfforddi; a<br>• chasglu data parhaus am ymwybyddiaeth staff a rhanddeiliaid o'r rolau Diogelu Corfforaethol allweddol. |
| **Cynnig Lleol ar gyfer Gwella 2** | **Crynodeb – Wedi'i roi ar waith yn llawn** |

| Argymhelliad o adroddiad 2015 | Asesiad Swyddfa Archwilio Cymru o gynnydd y Cyngor |
|---|---|
| Dylai'r Cyngor egluro pwy yw'r swyddogion dynodedig â chyfrifoldeb am ddiogelu. | Mae'r Cyngor wedi egluro pwy yw'r swyddogion dynodedig â chyfrifoldeb am ddiogelu a chaiff hyn ei nodi'n glir yn y polisi fel a ddangosir isod:<br><br>**Y Prif Weithredwr**<br>4.1 Y Prif Weithredwr sydd â chyfrifoldeb ar y cyfan am sicrhau bod trefniadau i ddiogelu plant ac oedolion yn effeithiol ar draws y Cyngor. Y Prif Weithredwr sy'n gyfrifol am ddatblygu trefniadau llywodraethu effeithiol a sicrhau bod polisi diogelu effeithiol ar waith.<br>4.2 Trwy gyfarfodydd un i un gyda Chyfarwyddwr Corfforaethol y Gwasanaethau Cymdeithasol, mae'r Prif Weithredwr yn cael ei hysbysu ynghylch materion diogelu perthnasol.<br>4.3 Hefyd, gallai unrhyw faterion eithriadol mewn perthynas â diogelu gael eu gwneud yn hysbys i'r cyfarfod G7 gan y Prif Weithredwr. Cyfarfod strategol rhwng Prif Weithredwyr y pum Awdurdod Lleol yng Ngwent, yr Heddlu a'r Bwrdd Iechyd yw G7.<br><br>**Yr Aelod Arweiniol dros Ddiogelu (Yr Aelod Cabinet dros Ofal Cymdeithasol a Llesiant)**<br>4.4 Yr Aelod Arweiniol dros Ddiogelu sy'n gyfrifol am ddarparu gwaith craffu gwleidyddol i sicrhau bod y Cyngor yn cyflawni ei ddyletswyddau a'i gyfrifoldebau ym maes diogelu. Bydd yr Aelod Arweiniol yn cadeirio'r Bwrdd Diogelu Corfforaethol ac yn cynorthwyo Aelodau Etholedig i graffu ar berfformiad y Cyngor ym maes diogelu a'i herio'n briodol.<br>4.5 Bydd yr Aelod Arweiniol yn cael ei friffio ynghylch unrhyw achosion sensitif a allai gael eu hystyried ar gyfer Adolygiadau Ymarfer Plant neu Oedolion neu a allai ddod yn fater sy'n ymwneud â budd y cyhoedd mewn rhyw ffordd arall. Bydd yr Aelod Arweiniol yn ymweld â gwasanaethau rheng-flaen o bryd i'w gilydd i gwrdd â staff a rheolwyr.<br><br>**Cyfarwyddwr Statudol y Gwasanaethau Cymdeithasol**<br>4.9 Cyfarwyddwr Statudol y Gwasanaethau Cymdeithasol sydd â'r cyfrifoldeb terfynol ac yn y pen draw am sicrhau bod gan y Cyngor fesurau diogelu priodol i amddiffyn plant, pobl ifanc ac oedolion agored i niwed. Mae'r Cyfarwyddwr Statudol yn gyfrifol am adrodd ar effeithiolrwydd y trefniadau hyn ar lefel gorfforaethol wrth y Prif Weithredwr, y Tîm Rheoli Corfforaethol ac Aelodau Etholedig.<br>4.10 Cyfarwyddwr Statudol y Gwasanaethau Cymdeithasol yw'r pwynt cyswllt i'r holl Gyfarwyddwyr Corfforaethol eraill hysbysu am bryderon difrifol ynghylch diogelu a all ddigwydd yn eu meysydd gwasanaeth hwy eu hunain. |

| Argymhelliad o adroddiad 2015 | Asesiad Swyddfa Archwilio Cymru o gynnydd y Cyngor |
|---|---|
| | Mae’r Cyfarwyddwr Statudol yn gyfrifol am sicrhau y cymerir camau priodol gan gynnwys hysbysu’r Prif Weithredwr a’r Aelod Cabinet Arweiniol fel y bo angen.<br>4.11 Mae’r Cyfarwyddwr yn dirprwyo’r cyfrifoldeb arweiniol am ddiogelu gweithredol a strategol i’r Cyfarwyddwyr Cynorthwyol ar gyfer Gwasanaethau Oedolion a Gwasanaethau Plant. Mae’r Cyfarwyddwyr Cynorthwyol yn sicrhau bod y Cyfarwyddwr yn cael ei hysbysu ynghylch materion diogelu trwy gyfarfodydd un i un ac yn ôl yr angen y tu allan i’r cyfarfodydd hyn.<br>4.12 Y Cyfarwyddwr sy’n gyfrifol am ddarparu Adroddiad Blynyddol ar gyfer y Cyngor ac AGGCC ar gynnydd a pherfformiad y Gwasanaethau Cymdeithasol sy’n cynnwys effeithiolrwydd trefniadau diogelu. |
| **A2**<br>Sicrhau bod polisi corfforaethol ar ddiogelu sy’n cynnwys holl wasanaethau’r cyngor er mwyn rhoi cyfeiriad strategol clir a llinellau atebolrwydd clir ar draws y cyngor. | **Crynodeb – Wedi’i roi ar waith yn llawn**<br><br>Mae Polisi Diogelu Corfforaethol y Cyngor yn nodi bod ‘Diogelu yn Fusnes i Bawb’ ac mae’n berthnasol i;<br><br>‘holl gyflogeion y Cyngor a chyflogeion ym myd addysg, Aelodau Etholedig, Gwirfoddolwyr a chontractwyr. Er bod cyflogeion, Aelodau Etholedig, gwirfoddolwyr a chontractwyr yn debygol o gael lefel amrywiol o gyswllt â phlant, pobl ifanc ac oedolion agored i niwed fel rhan o’u dyletswyddau, dylai pawb fod yn ymwybodol o arwyddion posibl o gam-drin ac esgeuluso a bod yn glir beth ddylent ei wneud os oes ganddynt bryderon.’<br><br>Mae diogelu hefyd yn flaenoriaeth allweddol yn ymrwymiadau’r Cabinet.<br><br>Cafodd polisi’r Cyngor ei ddiweddaru ddiwethaf yn 2018 ac mae’n adlewyrchu ystod o bynciau sy’n ymwneud â Diogelu gan gynnwys caethwasiaeth fodern, camfanteisio’n rhywiol ar blant, atal terfysgaeth a’r risg o radicaleiddio, Trais yn Erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol ac ymdrinnir â’r pynciau hyn yn y deunyddiau hyfforddi.<br><br>Yn ddiweddar mae’r Cyngor wedi cyflwyno pecyn cymorth hunanasesu i’r holl feysydd gwasanaeth ei gwblhau mewn perthynas â diogelu sy’n atgyfnerthu cyfrifoldebau’r holl feysydd gwasanaeth.<br><br>Ceir Swyddogion Diogelu Dynodedig ym mhob maes gwasanaeth sy’n ymdrin â’r cyhoedd i helpu gydag arweinyddiaeth ddosranedig ar Ddiogelu. Mae’r swyddogion hyn yn arwain ar Ddiogelu yn eu meysydd gwasanaeth. |

<table>
<tr><th>Argymhelliad o adroddiad 2015</th><th>Asesiad Swyddfa Archwilio Cymru o gynnydd y Cyngor</th></tr>
<tr><td></td><td>Gallai’r Cyngor ystyried yr opsiynau canlynol i gryfhau ei drefniant ymhellach:<ul><li>diwygio’i ddatganiad polisi i alluogi’r Swyddogion Diogelu Dynodedig i fod yn adnodd ar draws y Cyngor cyfan ac nid dim ond yn rhai a benodir i’w lleoli mewn meysydd gwasanaeth penodol lle ceir cyswllt uniongyrchol â’r cyhoedd. Byddai hyn yn hyrwyddo ethos y Cyngor bod diogelu yn ‘Fusnes i Bawb’ yn well.</li><li>diwygio’i Bolisi Diogelu Corfforaethol i sicrhau bod rôl y Gwasanaeth Archwilio Mewnol, y Pwyllgor Archwilio, Pwyllgorau Craffu a’r Cabinet yn cael eu hegluro.</li></ul></td></tr>
<tr><td>Cynnig Lleol ar gyfer Gwella 1<br>Datblygu Polisi Diogelu Corfforaethol sy’n nodi’r glir beth yw’r rolau, y cyfrifoldebau a’r gweithdrefnau penodol mewn perthynas â diogelu.</td><td>Gweler y naratif uchod</td></tr>
<tr><td>A3<br>Cryfhau recriwtio staff a gwirfoddolwyr yn ddiogel trwy:<ol><li>sicrhau bod gwiriadau’r Gwasanaeth Datgelu ac Atal (GDA) a chydymffurfio a pholisïau recriwtio diogel yn cynnwys pob gwasanaeth sy’n dod i gysylltiad â phlant;</li><li>creu system gydymffurfio gorfforaethol integredig i gofnodi a monitro lefelau cydymffurfio ar wiriadau GDA; a</li><li>mynnu cael arferion recriwtio diogel ymysg partneriaid yn y trydydd sector ac i wirfoddolwyr sydd yn darparu gwasanaethau a gomisiynir a/neu a ddefnyddir gan y cyngor gyda sylfaen o gontract neu gytundeb lefel gwasanaeth.</li></ol></td><td>Crynodeb – Wedi’i roi ar waith yn rhannol<br><br>Mae’r Cyngor wedi gweithredu i sicrhau bod gwiriadau’r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS) a chydymffurfio â pholisïau recriwtio diogel yn cynnwys pob gwasanaeth sy’n dod i gysylltiad â phlant. Mae ganddo system gydymffurfio gorfforaethol integredig i gofnodi a monitro lefelau cydymffurfio ar wiriadau’r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd ar gyfer staff.<br><br>Mae’r Cyngor wedi datblygu polisi Recriwtio Diogelach drafft defnyddiol sy’n rhoi adlewyrchiad gwell o’r Polisi Diogelu Corfforaethol a dylai sicrhau bod y Cyngor, wrth recriwtio staff a gwirfoddolwyr, yn gwneud yn siŵr bod recriwtio diogel yn cael ei wreiddio’n gyson.<br><br>Mae tîm Adnoddau Dynol y Cyngor wedi adolygu pob swydd ac wedi ystyried lefel y gwiriad gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd sy’n ofynnol ar gyfer pob swydd ar draws yr holl feysydd gwasanaeth ac mae’r tîm Adnoddau Dynol yn monitro unrhyw newidiadau arfaethedig i’r gwiriadau hynny y cytunwyd arnynt, er enghraifft pan fo deiliaid swyddi’n newid.<br>Mae’r Cyngor yn nodi yn ei gontractau ei bod yn ofynnol i wasanaethau a gomisiynir ddilyn arferion recriwtio diogel.</td></tr>
</table>

| Argymhelliad o adroddiad 2015 | Asesiad Swyddfa Archwilio Cymru o gynnydd y Cyngor |
|---|---|
| | Fodd bynnag, ar adeg ein gwaith maes canfuom y canlynol:<br>• nid oes dull ar draws y Cyngor cyfan o fonitro cydymffurfiaeth contractwyr ag arferion recriwtio diogel. Caiff trefniadau monitro eu pennu o fewn meysydd gwasanaeth. Nid oedd polisi recriwtio diogelach y Cyngor wedi cael ei gwblhau, ei gytuno na'i roi ar waith eto.<br>• er bod y Cyngor wedi datblygu system integredig i oruchwylio gwiriadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd a gwiriadau recriwtio diogelach ar gyfer cyflogeion, nid yw wedi sefydlu system ganolog i oruchwylio'r gwiriadau hynny ar gyfer gwirfoddolwyr a chontractwyr eto.<br><br>Gan hynny, mae gan y Cyngor waith pellach i'w wneud i fynd i'r afael â'r argymhelliad hwn yn llawn.<br>Wrth wneud hynny, dylai'r Cyngor hefyd amcanu at:<br>• sicrhau bod ei systemau monitro'n ei gwneud yn bosibl tracio recriwtio diogel ar gyfer gwirfoddolwyr a chontractwyr yn ogystal â staff;<br>• cryfhau ei drefniadau ar gyfer monitro bod gwasanaethau a gomisiynir gan y Cyngor yn dilyn arferion recriwtio diogel; a<br>• sicrhau bod yr holl reolwyr yn cael hyfforddiant ar y prosesau recriwtio diogel diwygiedig ac amlygu'r angen i sicrhau recriwtio diogel mewn perthynas â gwirfoddolwyr a chontractwyr. |
| **A4**<br>Sicrhau bod y staff, aelodau a phartneriaid perthnasol yn deall eu cyfrifoldebau diogelu trwy:<br>1. sicrhau bod hyfforddiant diogelu yn orfodol a bod yr ymdriniaeth yn ymestyn at holl feysydd gwasanaeth perthnasol y cyngor, a'i fod yn cael ei gynnwys fel elfen safonol ar raglenni cynefino;<br>2. creu system ledled y gorfforaeth i adnabod, olrhain a monitro cydymffurfiaeth â'r angen i fod yn bresennol mewn hyfforddiant | **Crynodeb – Wedi'i roi ar waith yn rhannol**<br><br>Mae Polisi Diogelu Corfforaethol y Cyngor yn gosod cyfrifoldeb ar Gyfarwyddwyr Corfforaethol i sicrhau bod staff yn eu Cyfarwyddiaethau wedi'u hyfforddi'n briodol i adnabod pryderon ynghylch diogelu ac ymateb iddynt Darperir Polisi Diogelu Corfforaethol y Cyngor ar ffurf copi caled ar gyfer yr holl staff newydd a benodir ac mae'n rhaid i'r aelodau hynny o staff lofnodi i gadarnhau eu bod wedi cael y polisi.<br><br>Er nad yw hyfforddiant diogelu'n orfodol ar gyfer Aelodau Etholedig, mae'r Cyngor wedi cymryd camau rhagweithiol i sicrhau bod Aelodau'n cael hyfforddiant diogelu sylfaenol. Mae gan y Cyngor drefniadau i sicrhau bod yr Aelodau hynny nad ydynt yn gallu mynychu'r sesiynau hynny'n cael eu gwneud yn ymwybodol o bolisi a deunyddiau hyfforddi Diogelu Corfforaethol y Cyngor.<br>Fodd bynnag, |

| Argymhelliad o adroddiad 2015 | Asesiad Swyddfa Archwilio Cymru o gynnydd y Cyngor |
|---|---|
| diogelu yn holl adrannau'r cyngor, aelodau etholedig, ysgolion, llywodraethwyr a gwirfoddolwyr; a<br>3. mynnu bod staff perthnasol mewn sefydliadau sy'n bartneriaid a gomisiynir i weithio dros y cyngor wrth gyflenwi gwasanaethau i blant a phobl ifanc yn gorfod ymgymryd â hyfforddiant diogelu | • nid yw'r Cyngor yn ei gwneud yn orfodol i staff ym mhob maes gwasanaeth gael hyfforddiant diogelu ar hyn o bryd. O ganlyniad, mae grŵp Swyddogion Diogelu Dynodedig y Cyngor wedi datblygu fframwaith hyfforddi diwygiedig gyda hyfforddiant sy'n briodol i lefel y cyswllt y mae staff yn ei gael â phlant. Bydd y fframwaith newydd hwn yn cael ei roi ar waith erbyn diwedd 2019.<br>• Ar hyn o bryd mae Swyddogion Diogelu Dynodedig yn darparu hyfforddiant yn eu meysydd gwasanaeth. Er bod y dull hwn yn sicrhau bod yr holl staff, gan gynnwys y rhai nad oes ganddynt fynediad rheolaidd at gyfrifiadur, yn cael hyfforddiant, mae'r Cyngor wedi cydnabod bod y modd y cofnodir yr wybodaeth hon am hyfforddiant wedi bod yn anghyson hyd yma ac mae bellach yn gweithio i fynd i'r afael â hyn.<br>• Mae Polisi Diogelu'r Cyngor yn llai eglur ynglŷn â'r gofyniad i sicrhau bod staff perthnasol mewn sefydliadau partner a gaiff eu comisiynu/contractio i weithio ar ran y Cyngor i ddarparu gwasanaethau ar gyfer plant a phobl ifanc yn cael hyfforddiant diogelu.<br><br>Gan hynny, mae gan y Cyngor waith pellach i'w wneud i fynd i'r afael â'r argymhelliad cenedlaethol hwn yn llawn.<br><br>Wrth wneud hynny, dylai'r Cyngor hefyd amcanu at:<br>• sicrhau bod hyfforddiant staff yn cael ei gofnodi'n gyson i'w gwneud yn bosibl cael hyfforddiant diweddaru'n brydlon;<br>• cytuno ar amserlen ofynnol pan fo disgwyl i staff, gwirfoddolwyr a chontractwyr gael hyfforddiant cychwynnol sylfaenol ar ôl cael eu penodi;<br>• sicrhau bod ei systemau monitro'n ei gwneud yn bosibl tracio hyfforddiant ar gyfer gwirfoddolwyr a chontractwyr yn ogystal â staff;<br>• adrodd wrth y Bwrdd Diogelu Corfforaethol ar y nifer sy'n cael hyfforddiant cychwynnol a diweddaru yn y fframwaith hyfforddiant diwygiedig;<br>• coladu dadansoddiad canrannol o gydymffurfio â hyfforddiant diogelu (cychwynnol a diweddaru) ar gyfer staff ym mhob maes gwasanaeth ac ar gyfer gwirfoddolwyr a chontractwyr;<br>• archwilio'r defnydd o e-ddysgu fel rhan o'i fframwaith hyfforddi; ac<br>• egluro sut y bydd hyfforddiant diogelu ar gyfer contractwyr yn cael ei fonitro. |
| **Cynnig Lleol ar gyfer Gwella 4** | **Gweler y naratif uchod** |

| Argymhelliad o adroddiad 2015 | Asesiad Swyddfa Archwilio Cymru o gynnydd y Cyngor |
|---|---|
| Sicrhau bod yr holl aelodau etholedig a staff sy'n dod i gysylltiad â phlant yn rheolaidd yn cael hyfforddiant ar faterion diogelu ac amddiffyn plant a pholisi corfforaethol y Cyngor ar ddiogelu. Dylai hyn gynnwys gwirfoddolwyr hefyd. | |
| **A6**<br>Gwella atebolrwydd am ddiogelu corfforaethol trwy adrodd yn rheolaidd ar faterion diogelu a sicrwydd wrth bwyllgor(au) craffu yn erbyn set gytbwys o wybodaeth perfformiad ledled y cyngor ynglŷn â'r canlynol:<br>• meincnodi a chymharu ag eraill;<br>• casgliadau archwiliadau/adolygiadau arolygu mewnol ac allanol;<br>• data perfformiad seiliedig ar wasanaethau;<br>• data personél allweddol megis hyfforddiant diogelu, a gwiriadau recriwtio GDA; a<br>• pherfformiad contractwyr a gwasanaethau a gomisiynwyd o ran cydymffurfio â chyfrifoldebau diogelu'r cyngor | **Crynodeb – Wedi'i roi ar waith yn rhannol**<br><br>Mae Polisi Diogelu Corfforaethol y Cyngor yn nodi bod y Cabinet wedi dirprwyo'r cyfrifoldeb 'am fonitro effeithiolrwydd trefniadau diogelu ar draws y Cyngor' a llunio'r Adroddiad Blynyddol ar Ddiogelu Corfforaethol i Fwrdd Diogelu Corfforaethol y Cyngor.<br><br>Mae gan y Bwrdd Diogelu Corfforaethol gylch gorchwyl eglur a chynhwysfawr fel a nodir yn y Polisi Diogelu Corfforaethol. Mae amodau gorchwyl y Bwrdd i'w gweld yn Atodiad 1.<br>Agwedd allweddol ar gyfrifoldebau'r Bwrdd yw monitro effeithiolrwydd trefniadau diogelu ar draws y Cyngor a gweithredu'n strategol i sicrhau'r Cyngor bod gweithdrefnau ar gyfer rheoli pryderon ynghylch diogelu'n gadarn.<br>Cyhoeddir yr Adroddiad Blynyddol ar Ddiogelu Corfforaethol ar Borthol yr Aelodau Etholedig er gwybodaeth a gall unrhyw Aelod Etholedig ei 'alw i mewn' ar gyfer craffu arno.<br>Yn ddiweddar mae'r Cyngor wedi cyflwyno proses hunanasesu i Swyddogion Diogelu Dynodedig ei chwblhau yn eu meysydd gwasanaeth. Ni fydd yr hunanasesiadau hynny'n cael eu dychwelyd tan ar ôl cyfarfod blynyddol y Bwrdd Diogelu Corfforaethol yn 2019. Mae'r Cyngor yn cydnabod y gallai ddefnyddio'r sgorau Coch, Ambr, Gwyrdd a ddarperir yn yr hunanasesiadau i oleuo'r Adroddiad Blynyddol ar Ddiogelu Corfforaethol 2019-20 yn ogystal â chamau gwella ar draws y Cyngor yn ystod 2019-20.<br><br>Fodd bynnag,<br>• nid yw'n glir sut y mae'r Bwrdd Diogelu Corfforaethol yn cyflawni ei gylch gorchwyl trosolwg a sicrwydd llawn o ystyried mai unwaith y flwyddyn y mae'n cwrdd i ddrafftio a chytuno ar yr Adroddiad Blynyddol ar Ddiogelu Corfforaethol.<br>• nid yw Adroddiad Blynyddol y Bwrdd Diogelu wedi cael ei alw i mewn ar gyfer craffu arno hyd yma ac nid yw'r Cabinet na'r Pwyllgor Archwilio'n cael adroddiad mewn perthynas ag effeithiolrwydd trefniadau Diogelu Corfforaethol. |

| Argymhelliad o adroddiad 2015 | Asesiad Swyddfa Archwilio Cymru o gynnydd y Cyngor |
|---|---|
| | • ar hyn o bryd nid yw adroddiad y Bwrdd Diogelu Corfforaethol yn darparu sicrwydd digonol ar gyfer y Cyngor bod ei weithdrefnau ar gyfer rheoli pryderon ynghylch diogelu'n gadarn. Roedd adroddiad 2018 yn canolbwyntio'n bennaf ar faterion gweithredol yn hytrach na'r drosolwg strategol y mae'r Bwrdd yn gyfrifol amdani.<br>• er bod y data y byddir yn adrodd arno yn Adroddiad Blynyddol y Bwrdd ar gyfer 2018-19 yn berthnasol i Ddiogelu, nid yw'n adlewyrchu'r gweithgarwch diogelu ehangach a gyflawnir gan y Cyngor fel a argymhellwyd yn flaenorol;<br>• darparu meincnodi a chymariaethau â Chynghorau eraill;<br>• cyfeirio at gasgliadau archwiliadau/adolygiadau arolygu mewnol ac allanol;<br>• darparu data perfformiad seiliedig ar wasanaethau;<br>• darparu data eglur ar hyfforddiant diogelu a gafwyd a hefyd prosesau recriwtio diogel; a<br>• nodi perfformiad contractwyr, partneriaid a gwirfoddolwyr o ran cydymffurfio â chyfrifoldebau diogelu'r Cyngor.<br><br>Gan hynny, mae gan y Cyngor waith pellach i'w wneud i fynd i'r afael â'r argymhelliad cenedlaethol hwn yn llawn i'w argyhoeddi ei hun bod ganddo drosolwg a sicrwydd cadarn lle mae effeithiolrwydd ei drefniadau diogelu yn y cwestiwn.<br><br>Wrth wneud hynny, dylai'r Cyngor hefyd amcanu at:<br>• sicrhau bod y Bwrdd Diogelu Corfforaethol yn cael ei gynorthwyo i gyflawni ei gyfrifoldebau'n effeithiol;<br>• sicrhau trosolwg effeithiol ar yr Adroddiad Blynyddol ar Ddiogelu Corfforaethol i ddarparu sicrwydd; a<br>• datblygu set ehangach o fesurau perfformiad fel a argymhellwyd yn flaenorol i adlewyrchu bwriadau'r Polisi Diogelu Corfforaethol a darparu mwy o sicrwydd ynghylch gweithrediad y polisi. |
| **Cynnig Lleol ar gyfer Gwella 3**<br>Gwella ystod, ansawdd a chwmpas adroddiadau ar berfformiad diogelu ar gyfer aelodau i ddarparu sicrwydd digonol bod trefniadau corfforaethol yn gweithio'n effeithiol. | **Gweler y naratif uchod** |
| **A7** | **Crynodeb – Wedi'i roi ar waith yn rhannol** |

| Argymhelliad o adroddiad 2015 | Asesiad Swyddfa Archwilio Cymru o gynnydd y Cyngor |
|---|---|
| Sefydlu rhaglen dreigl o adolygiadau archwilio mewnol i gynnal profion ar systemau a chynnal adolygiadau cydymffurfio ar arferion diogelu'r cyngor. | Mae'r Cyngor wedi sefydlu rhaglen o archwiliadau diogelu rheolaidd ar draws ysgolion a gaiff eu cwblhau ar sail cylch tair blynedd ac mae'r rhain yn darparu mewnwelediad a sicrwydd ynghylch diogelu mewn ysgolion. Wedyn darperir adroddiadau cryno ar gyfer uwch arweinwyr ar ganlyniadau'r archwiliadau hynny.<br><br>Mae'r Gwasanaeth Archwilio Mewnol o'r farn bod ystyriaethau o ran diogelu wedi'u gwreiddio yn eu holl archwiliadau.<br><br>Fodd bynnag,<br>• Ar wahân i'w ddull o gynnal archwiliadau diogelu mewn ysgolion, nid yw'r Cyngor wedi mynd ati'n glir i sefydlu rhaglen dreigl o adolygiadau archwilio mewnol i brofi systemau a chydymffurfiaeth â Pholisi Diogelu Corfforaethol y Cyngor.<br>• ni chanfuom dystiolaeth o fecanwaith rheolaidd i'r Gwasanaeth Archwilio Mewnol rannu materion sy'n gysylltiedig â Diogelu gyda swyddogion Diogelu Corfforaethol arweiniol nac i ddarparu gwybodaeth ar gyfer yr Adroddiad Blynyddol ar Ddiogelu Corfforaethol, na'r Pwyllgor Archwilio bod trefniadau llywodraethu ar gyfer diogelu'n gadarn.<br>• er bod proses datganiad llywodraethu blynyddol y Cyngor yn ei gwneud yn ofynnol i benaethiaid gwasanaeth ddarparu sicrwydd bod staff yn ymwybodol o Ddiogelu Corfforaethol ac yn cael hyfforddiant arno, dim ond ar staff y mae ffocws y sicrwydd hwn ac nid yw'n darparu sicrwydd mewn perthynas â gwirfoddolwyr a chontractwyr felly nid yw'n adlewyrchu cwmpas Polisi Diogelu Corfforaethol y Cyngor ei hun yn llawn.<br><br>Gan hynny, mae gan y Cyngor waith pellach i'w wneud i fynd i'r afael â'r argymhelliad cenedlaethol hwn yn llawn.<br><br>Wrth wneud hynny, dylai'r Cyngor hefyd amcanu at:<br>• egluro rôl y Gwasanaeth Archwilio Mewnol a'r Pwyllgor Archwilio o ran sicrhau bod trefniadau Diogelu Corfforaethol yn gweithio ac yn cael eu llywodraethu'n effeithiol, gan gynnwys o fewn y Polisi Diogelu Corfforaethol;<br>• sicrhau bod gwybodaeth a mewnwelediad perthnasol o raglen waith y Gwasanaeth Archwilio Mewnol yn cael eu rhannu ac yn bwydo i mewn i fframwaith trosolwg a sicrwydd y Cyngor ar gyfer diogelu gan gynnwys gyda'r Bwrdd Diogelu Corfforaethol; a<br>• darparu hyfforddiant diogelu a hyfforddiant diweddaru ar ddiogelu ar gyfer Staff Archwilio Mewnol. |

| Argymhelliad o adroddiad 2015 | Asesiad Swyddfa Archwilio Cymru o gynnydd y Cyngor |
|---|---|
| • **Cynnig Lleol ar gyfer Gwella 5**<br>Adnabod a chytuno ar raglen briodol o waith archwilio mewnol ar gyfer diogelu. | **Wedi'i roi ar waith yn rhannol (gweler y naratif uchod)** |
| **A8**<br>Sicrhau yr ystyrir y risgiau sy'n gysylltiedig â diogelu ar lefel gorfforaethol a gwasanaeth wrth ddatblygu a chytuno ar gynlluniau rheoli risg ar draws y cyngor. | **Crynodeb – Heb ei roi ar waith**<br>• Nid yw'r Cyngor yn cynnwys diogelu fel un o'r Risgiau Corfforaethol ac nid yw'n rhan o gofrestr risgiau'r Gwasanaethau Plant.<br>• Nid yw'r Cyngor wedi darparu tystiolaeth glir bod risgiau sy'n gysylltiedig â diogelu'n cael eu hystyried ar lefel gorfforaethol na lefel gwasanaeth. Yn rhannol, mae'r Cyngor o'r farn, yn y Gwasanaethau Cymdeithasol ac Addysg, bod diogelu'n cael ei ystyried yn rhan annatod o weithgareddau'r meysydd gwasanaeth hynny. Fodd bynnag, mae tystiolaeth a ddarparwyd yn dangos nad oes rhyw lawer o weithgarwch monitro contractau sy'n canolbwyntio ar agweddau sy'n ymwneud â diogelu.<br>• Efallai y bydd yr offeryn hunanasesu a gyflwynwyd gan y Cyngor yn ddiweddar yn darparu peth mewnwelediad i'r risgiau sy'n bodoli ar draws meysydd gwasanaeth, ond nid yw'r Cyngor wedi egluro eto sut y bydd yn defnyddio'r dystiolaeth honno i ddatblygu ei ddull o ran risgiau sy'n gysylltiedig â diogelu.<br><br>Felly nid yw'r Cyngor wedi gwneud cynnydd o ran mynd i'r afael â'r argymhelliad cenedlaethol hwn. |

# Atodiad 1

## Y Bwrdd Diogelu Corfforaethol

### Amodau Gorchwyl

#### Diben

Mae'r cyfrifoldeb am gadw trosolwg ar drefniadau diogelu ar draws y Cyngor wedi cael ei ddirprwyo i'r Bwrdd Diogelu Corfforaethol gan y Cabinet.

Prif gyfrifoldebau'r Bwrdd yw sicrhau bod trefniadau cadarn ar gyfer diogelu plant ac oedolion yn eu lle o fewn ac ar draws y Cyngor.

#### Aelodaeth o'r Bwrdd:

- Aelod Arweiniol dros Ddiogelu Corfforaethol (Cadeirydd)
- Y Swyddogion Diogelu Dynodedig o bob maes gwasanaeth
- Y Cyfarwyddwr Cynorthwyol – Gwasanaethau Plant
- Yr Arweinydd Diogelu ar ran y Gwasanaeth Addysg
- Y Rheolwr Gwasanaeth – Diogelu, Gwasanaethau Cymdeithasol
- Rheolwr Datblygu'r Gweithlu
- Y Gwasanaethau Cyfreithiol
- Bydd Swyddogion eraill yn cael eu cyfethol fel y bo'n ofynnol a'u cytuno gan y Grŵp

**Cyfrifoldebau allweddol y Bwrdd fydd:**

- Sicrhau'r Cabinet bod gweithdrefnau'r Cyngor ar gyfer diogelu plant ac oedolion yn gadarn.
- Sicrhau bod trefniadau gweithio ar draws Cyfarwyddiaethau / rhwng adrannau a chyfathrebu corfforaethol mewn perthynas â diogelu'n effeithiol.
- Cefnogi swyddogaethau a dyletswyddau Cyfarwyddwr Statudol y Gwasanaethau Cymdeithasol.
- Cymeradwyo polisïau a chanllawiau diogelu pob maes Gwasanaeth yn y Cyngor a chael gwybodaeth am eu priod drefniadau rheoli perfformiad mewn perthynas â'u cyfrifoldebau diogelu i sicrhau y cydymffurfir â deddfwriaeth a chanllawiau statudol perthnasol.
- Sicrhau bod y Swyddogion Diogelu Dynodedig yn cael eu cynorthwyo i gydweithio a rhannu gwybodaeth ac i adnabod unrhyw fylchau ym mholisïau a gweithdrefnau diogelu'r Cyngor.

- Adnabod a datrys unrhyw rwystrau a allai atal rhag rhoi gweithdrefnau diogelu effeithiol ar waith.
- Adnabod unrhyw fylchau mewn polisïau a chanllawiau Corfforaethol a sicrhau yr ymdrinnir â hwy.
- Sicrhau bod perthnasoedd gweithio effeithiol yn cael eu cynnal â’r Byrddau Diogelu Rhanbarthol (Plant ac Oedolion) a’r Uned Fusnes.
- Sicrhau bod hyfforddiant priodol ar gael i Swyddogion ac Aelodau Etholedig.
- Cael ac ystyried gwybodaeth am berfformiad diogelu corfforaethol ac adnabod unrhyw gamau gweithredu sy’n ofynnol.
- Cael ac ystyried gwybodaeth am dueddiadau mewn perthynas â honiadau o gam-drin proffesiynol a mabwysiadu cynlluniau gweithredu i ymateb i unrhyw faterion os cyfyd yr angen.
- Ystyried goblygiadau unrhyw Adolygiad Ymarfer Plant neu Oedolion neu Adolygiad Dynladdiad Domestig a sicrhau bod y Cyngor yn ymateb yn effeithiol i argymhellion yn ôl eu perthnasedd i’r Cyngor.
- Mynd ati o bryd i’w gilydd i adolygu a diweddaru’r Polisi Diogelu Corfforaethol a chynnwys y Porthol ar y Fewnrwyd.
- Llunio Adroddiad Blynyddol.

**Cynnal cyfarfodydd:**

- Bydd y cyfarfodydd yn cael eu cynnal yn flynyddol.
- Bydd y cyfarfodydd yn cael eu cadeirio gan yr Aelod Arweiniol dros Ddiogelu Corfforaethol.
- Bydd y cyfarfodydd yn cael eu gweinyddu gan Uned Cymorth Busnes y Gwasanaethau Plant.
- Gall yr holl aelodau gyflwyno eitemau i’w hystyried.
- Bydd agendâu, cofnodion a phapurau perthnasol yn cael eu cylchredeg cyn y cyfarfodydd.
- Bydd Aelodaeth ac Amodau Gorchwyl y Bwrdd yn cael eu hadolygu’n flynyddol neu fel y bo angen.

Wales Audit Office
24 Cathedral Road
Cardiff CF11 9LJ

Tel: 029 2032 0500
Fax: 029 2032 0600
Textphone.: 029 2032 0660

E-mail: info@audit.wales
Website: www.audit.wales

Swyddfa Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500
Ffacs: 029 2032 0600
Ffôn testun: 029 2032 0660

E-bost: post@archwilio.cymru
Gwefan: www.archwilio.cymru